

# Cynllun Dwysáu Triniaeth


## Gwneud y penderfyniadau iawn pan fyddwch chi'n sâl yn yr ysbyty.

**Canllaw i bobl sy'n 18 oed ac yn hŷn sy'n derbyn gofal iechyd, eu teuluoedd a'u gofalwyr.**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board
bipab.gig.cymru




| | |
|---|---|
|  | Mae'r daflen hon yn dweud wrthych chi beth all ddigwydd os byddwch yn mynd yn sâl yn yr ysbyty.<br>Gall rhai pethau yn y daflen hon wneud i chi deimlo'n ofidus. |
|  | Pan fydd pobl yn mynd yn sâl, efallai y byddant yn mynd i'r ysbyty.<br>Mae meddygon a nyrsys yn ceisio eu gwella. |
|  | Gall meddwl am fynd yn sâl fod yn beth anodd. Mae'n iawn bod yn bryderus neu'n ofidus.<br><br>Gall meddygon, nyrsys, eich gofalwyr a'ch teulu eich helpu. |
|  | Weithiau mae pobl yn mynd mor sâl fel na fyddant byth yn gwella.<br><br>Os ydych chi'n sâl iawn, bydd meddygon neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch, fel nyrsys, yn siarad â chi am yr hyn y gallant ei wneud i'ch helpu. |


Dignity and Compassion in Care

NO LONGER VALID AFTER DISCHARGE FROM HOSPITAL
Admission date:
Discharge Date:

GIG CYMRU NHS WALES

Please affix patient label:
Name:
CRN:
DOB:
Address:

**Treatment Escalation Plan**

*(To be used for all current, adult ABUHB inpatients)*

This is not a legally binding document but a guide/handover and does not replace clinical judgement. It should be taken into account within the specific clinical context.

For CPR and full treatment escalation ☐

Not for CPR ☐ (Complete All Wales DNACPR) Please indicate the ceiling of treatment by drawing a line above the highest level to be offered and crossing off any above this level. (See reverse for example.)

Co-Morbidity Burden/Function

Clinical Frailty Scale (1-9) (Refer to CFS page / NICE guidance on page 4)

| | Doctor's signature | Date |
|---|---|---|
| Discussion with critical care | | |
| CCU admission/ Ward based NIV | | |
| Transfer to GUH | | |
| Transfer to eLGH | | |
| Active ward based care | | |
| Symptomatic care | | |

Rationale for decision:
Treatment above this ceiling would cause harm to patient/ not be successful. ☐
The patient has capacity and has declined treatment above this level. ☐
The treatment is not in keeping with an existing advance decision to refuse treatment or Adv. Care Plan ☐
The patient lacks capacity and an appointed Lasting Power of Attorney declined treatment above this level ☐

Nursing staff informed Name of nursing staff: Position: Date:

Doctor completing form
Signature: Name: GMC no: Position: Date:

Consultant endorsing form
Signature: Name: GMC no: Department: Date:

Review of escalation plan / Second consultant opinion
Signature: Name: GMC no: Department: Date:

Now complete page 2 of the form

All Wales TEP Form v 1.29 developed in ABUHB
Reviewed July 2020. Review date: July 2021
PLEASE FILE IN FRONT OF PATIENT NOTES

1


Mae gan yr Ysbyty ffurflen a elwir yn Gynllun Dwysáu Triniaeth. Weithiau gelwir hyn yn TEP.



Mae'r ffurflen hon yn helpu'r meddyg neu'r bobl sy'n gofalu amdanoch, i siarad â chi am ba driniaeth a allai helpu a beth na fydd yn helpu os byddwch yn mynd yn sâl iawn pan fyddwch yn yr ysbyty.



Gallwch ddweud ie neu na i’r driniaeth y mae'r meddyg neu bobl eraill yn siarad amdani â chi.




Bydd siarad am eich gofal a'ch triniaeth yn eich helpu i geisio deall y penderfyniadau y mae meddygon a nyrsys yn meddwl fydd orau i chi.

Gall eich teulu a'ch gofalwyr fod gyda chi os ydych am iddynt fod.

| | |
|---|---|
|  | Bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi i weld a allant eich gwella a pha driniaeth fyddai orau i chi.<br><br>Gallwch ofyn cwestiynau am y driniaeth, cwestiynau fel: a fydd yn gweithio. |
|  | Byddant yn gofyn cwestiynau i chi ac yn llenwi'r ffurflen.<br><br>Gallwch chi ddweud wrthyn nhw os nad ydych chi'n deall unrhyw beth, a byddant yn esbonio pethau i chi. |
|  | Os ydych am gael y driniaeth y mae'r meddyg neu'r bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi amdani, gallwch ddweud ie ac os nad ydych ei heisiau, gallwch ddweud na. |
|  | Bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi am gymryd meddyginiaeth ac a ydych am barhau i gymryd hon i geisio'ch gwella.<br><br>Efallai y bydd yn dweud wrthych fod y feddyginiaeth yn eich gwneud yn well (neu ddim yn eich gwneud yn well) bellach. |

| | |
|---|---|
|  | Efallai bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi i weld a ydynt yn meddwl ei bod yn syniad da i chi gael tiwbiau yn eich braich. Mae tiwbiau'n cael eu gosod ar nodwydd sy'n mynd i'ch braich. Gelwir hyn yn ganiwla.<br><br>Mae'r fideo hwn yn dangos i chi beth sy'n digwydd os oes gennych chi ganiwla yn yr ysbyty. |
|  | Weithiau gall y tiwbiau hyn ei gwneud hi'n haws rhoi meddyginiaethau neu ddŵr i chi, ond gallant fod yn anghyfforddus.<br><br>Gallwch chi ddweud ie neu na. |
|  | Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd anadlu, bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi am yr hyn a allai wneud i chi deimlo'n well.<br><br>Gall rhai meddyginiaethau helpu. |

| | |
|---|---|
|  | Weithiau, pan fydd pobl yn wirioneddol sâl, efallai y byddant yn cael rhywbeth o'r enw awyru i'w helpu i anadlu.<br><br>Gallai hyn olygu gorfod gwisgo masg wyneb sydd wedi'i gysylltu â pheiriant o'r enw peiriant anadlu. Mae rhai pobl yn gweld hyn yn anghyfforddus. |
|  | Weithiau, pan fydd pobl yn sâl iawn, bydd eu calon yn peidio curo. Bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi a'ch teulu am geisio ailgychwyn eich calon. Gelwir hyn yn CPR.<br><br>Mae CPR yn ffordd gryno i ddweud Dadebru Cardio-Pwlmonaidd. |
|  | Nid yw CPR yn gweithio bob tro ac weithiau, efallai na fydd yn helpu pobl sy'n sâl iawn.<br><br>Bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn siarad â chi a'ch teulu am hyn. |

| | |
|---|---|
|  | Mae'n bwysig iawn eich bod chi, eich teulu a'ch gofalwyr yn rhan o'r trafodaethau ynghylch beth fyddai'n eich helpu. Gallwch chi ddweud ie neu na. Bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch chi yn ysgrifennu beth fyddai'n eich helpu a'ch barn ar y ffurflen. |
|  | Gallwch drafod unrhyw beth gyda'r meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch a gallwch ofyn cwestiynau os nad ydych yn deall unrhyw beth. |
|  | Os ydych chi'n sâl iawn ac yn methu dweud beth rydych chi ei eisiau, gall pobl sy'n eich adnabod chi ac rydych chi'n ymddiried ynddynt siarad â'r meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch am yr hyn maen nhw'n meddwl y byddech chi ei eisiau. |
| <br>Dignity and Compassion in Care<br>NO LONGER VALID AFTER DISCHARGE FROM HOSPITAL<br>Admission date:<br>Discharge Date:<br>GIG CYMRU NHS WALES<br>Please affix patient label:<br>Name:<br>CRN:<br>DOB:<br>Address:<br>**Treatment Escalation Plan**<br>*(To be used for all current, adult ABUHB inpatients)*<br>This is not a legally binding document but a guide/handover and does not replace clinical judgement. It should be taken into account within the specific clinical context.<br>For CPR and full treatment escalation ☐<br>Not for CPR ☐ (Complete All Wales DNACPR) Please indicate the ceiling of treatment by drawing a line above the highest level to be offered and crossing off any above this level. (See reverse for example.)<br>Co-Morbidity Burden/Function<br>Clinical Frailty Scale (1-9) (Refer to CFS page / NICE guidance on page 4)<br>Doctor's signature Date<br>Discussion with critical care<br>CCU admission/ Ward based NIV<br>Transfer to GUH<br>Transfer to eLGH<br>Active ward based care<br>Symptomatic care<br>Rationale for decision:<br>Treatment above this ceiling would cause harm to patient/ not be successful. ☐<br>The patient has capacity and has declined treatment above this level. ☐<br>The treatment is not in keeping with an existing advance decision to refuse treatment or Adv. Care Plan ☐<br>The patient lacks capacity and an appointed Lasting Power of Attorney declined treatment above this level ☐<br>Nursing staff informed Name of nursing staff: Position: Date:<br>Doctor completing form<br>Signature: Name: GMC no: Position: Date:<br>Consultant endorsing form<br>Signature: Name: GMC no: Department: Date:<br>Review of escalation plan / Second consultant opinion<br>Signature: Name: GMC no: Department: Date:<br>Now complete page 2 of the form<br>All Wales TEP Form v 1.29 developed in ABUHB<br>Reviewed July 2020. Review date: July 2021<br>PLEASE FILE IN FRONT OF PATIENT NOTES<br>1 | Unwaith y bydd gennych TEP yr ydych yn cytuno ag ef, bydd y meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch yn rhoi'r cynllun yma ar flaen eich nodiadau ysbyty.<br><br>Bydd hyn yn helpu meddygon a nyrsys eraill i roi'r gofal a'r driniaeth gywir i chi. |

| | |
|---|---|
|  | Gallwch chi a'ch teulu ofyn i gael trafod eich cynllun os byddwch yn gwella neu'n mynd yn fwy sâl. |
|  | Os nad ydych chi neu'ch teulu yn hapus gyda'r penderfyniadau, gallwch siarad â'r meddyg neu bobl eraill sy'n gofalu amdanoch |
|  | Os ydych chi'n dal yn anfodlon, gallwch chi neu'ch teulu siarad â rhywun arall am hyn.<br><br>Gall hwn fod yn rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo neu'n eiriolwr neu drydydd parti.<br><br>Gallwch chi neu'ch teulu hefyd ofyn am ail farn gan feddyg arall. |
|   | Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Cyngor a Chyswllt Cleifion a fydd yn eich helpu i ddatrys eich pryderon.<br><br>01633 493753<br><br>ABB.PALS@wales.nhs.uk |